

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Partneriaethau

Dyddiad: 13 Medi 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 20 MEDI 2018** am **10.00** am yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

Cynhelir sesiwn frifio ar gyfer aelodau am 9.15am, yn union o flaen y prif gyfarfod. Taer erfynnir ar i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu's sesiwn hon.

AGENDA

RHAN 1 - ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Cael cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2018 (copi ynghlwm).

10:00 a.m. – 10:05 a.m.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2017 - 31 MAWRTH 2018 (Tudalennau 15 - 24)

Ystyried adroddiad gan Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion Diamddiffyn (copi ynghlwm) i roi trosolwg o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf.

10:05 a.m. – 10:50 a.m.

~~~~EGWYL~~~~

10:50 a.m. – 11:05 a.m.

**6 DARPARIAETH GOFAL SEIBIANT AR DRAWS SIR DDINBYCH** (Tudalennau 25 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Comisiynu – Gwasanaethau Gofalwyr (copi ynghlwm) yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth ac argaeledd seibiant i drigolion Sir Ddinbych sydd ag anghenion gofal a chymorth, sydd yn eu tro yn darparu seibiant i'w teulu sy'n Ofalwyr.

11:05 a.m. – 11:50 a.m.

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 53 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11:50 a.m. – 12:05 p.m.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12:05 p.m. – 12:10 p.m.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Dim

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Jeanette Chamberlain-Jones  
(Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Gareth Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones  
Christine Marston

Melvyn Mile  
Andrew Thomas  
Rhys Thomas  
David Williams  
Emrys Wynne

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Iau, 28 Mehefin 2018 am 10:00 yb.

### YN BRESENNOL:

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

### HEFYD YN BRESENNOL:

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau; Swyddog Adran 151 / Prif Swyddog Cyllid (RW); Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol – Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru (BJE); Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP); Cydlynnydd Craffu (RhE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain Jones (Cadeirydd), Huw Irving a David Williams.

### 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad personol na rhagfarnus.

### 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Yn absenoldeb y cadeirydd, y Cyngorwydd Jeanette Chamberlain-Jones, gofynnodd y Cydlynnydd Craffu (SC) am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd. Roedd y Cyngorwydd Emrys Wynne wedi datgan diddordeb mewn gwasanaethu fel Is-Gadeirydd y pwyllgor am dymor arall. Roedd CV a baratowyd ganddo wedi ei gylchredeg i holl aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Cynigiodd y Cyngorwydd Melvyn Mile y dylid penodi'r Cyngorwydd Wynne yn is-gadeirydd y pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Eiliodd y Cyngorwydd Rhys Thomas y cynnig. Ni dderbyniwyd enwebiadau eraill a daeth y pwyllgor i benderfyniad unfryd.

***Penderfynwyd*** – penodi'r Cyngorwydd Emrys Wynne yn is-gadeirydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018-19.

Yn dilyn ei benodiad, diolchodd y Cyngorwydd Emrys Wynne i'r pwyllgor, gan ddymuno'n dda i'r cadeirydd presennol, y Cyngorwydd Jeanette Chamberlain-Jones

a dweud ei fod yn gobeithio y byddai hi'n cadeirio cyfarfodydd eto cyn hir. Cadeiriodd y Cyng. Wynne weddill y cyfarfod.

#### **4 MATERION BRYD FEL A GYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd

#### **5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 13 Ebrill a 3 Mai 2018. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â chywirdeb.

**PENDERFYNWYD:** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Ebrill a 3 Mai fel cofnod cywir.*

Materion yn codi:

Gan ymateb i bryderon y Cynghorydd Rhys Thomas ar y lleihad yn nifer y gwllâu yn Ysbyty Cymuned Dinbych, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wybod fod y wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r ysbyty wedi ei gylchredeg i aelodau'r pwyllgor. Roedd cynrychiolwyr o'r Bwrdd wedi eu gwahodd i fynyhu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol, pan fyddai gweledigaeth y Bwrdd ar ddyfodol yr ysbyty wedi ei gytuno arno. Roedd y Pwyllgor ar hyn o bryd yn disgwyl cadarnhad ar bryd yr oedd y Bwrdd yn disgwyl i'r weledigaeth honno fod ar gael.

#### **6 CYLLIDEBAU CYFUN (IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL)**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Annibyniaeth a Llesiant adroddiad y Pennaeth Cyllid (a gylchredwyd eisoes) oedd yn diweddarau'r Pwyllgor ar y gwaith yr ymgwymerwyd ag o hyd yn hyn i ddatblygu a sefydlu cyllidebau cyfun rhwng y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar gyfer darpariaeth rhai swyddogaethau penodol yn unol â gofynion Adran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ar draws Gogledd Cymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys sefydlu cyllideb gyfun ar gyfer 'arfer swyddogaethau llety cartref gofal'.

Er bod y cysyniad o gyllidebau cyfun at swyddogaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gymeradwy am mai eu nod oedd i gryfhau darpariaeth gwasanaeth trwy integreiddio gwasanaethau, cyngor yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion oedd fod y gwaith fyddai'n ofynnol i'w sefydlu yn unol â gofynion y Ddeddf yn gymhleth ac yn gofyn am gymryd lefel sylweddol o risg oherwydd y meintiau ariannol ynghlwm â'r broses. Yn unol â gofynion y Ddeddf, roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu Fwrdd Adran 9 wedi ei sefydlu i sicrhau cynnydd yn y maes gwaith yma. Roedd peth amheuaeth yn dal i fod gan aelodau Bwrdd o'r Gwasanaeth Iechyd a'r



Awdurdodau Lleol fel ei gilydd a fyddai gorfodaeth i sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer swyddogaethau penodol yn cyflenwi gwasanaethau di-dor gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gan mai tystiolaeth gyfyngedig oedd i gefnogi'r ddamcaniaeth hon yn bresennol. Tra nad oedd y Ddeddf yn benodol am faint y 'gronfa', roedd Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018 wedi cyfeirio at y ffaith y dylai pob 'cronfa' fod ar lefel ranbarthol yn hytrach nac is-ranbarthol h.y. i gydweddu â'r ardal Bwrdd Iechyd Leol gyfan yn hytrach na'r ardaloedd a wasanaethir gan is-ranbarthau'r Bwrdd Iechyd, neu 'gronfa' rhwng pob Awdurdod Lleol unigol a'r Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, roedd Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd ar draws holl ranbarthau Cymru wedi cytuno i ddatblygu cronfa 'rhannu heb risg'. Roedd y dull hwn yn ddibynnol ar weithgaredd i gydgrynhoi gwybodaeth berthnasol ar wariant ar wasanaethau i hwyluso dadansoddiad manwl o wariant pob partner, a chynhyrchu adroddiadau i brofi ymarferoldeb sefydlu 'cyllidebau cyfun' ffurfiol yn y dyfodol. Dylai'r gweithgaredd hwn helpu i adnabod gor/tanwariant posib pob partner yn y meysydd 'cyllideb gyfun' arfaethedig, fyddai'n galluogi mynd i'r afael â unrhyw risgiau'n deillio o'r rhain cyn sefydlu 'cyllidebau cyfun' ffurfiol. Roedd manylder a fformat y data a oedd yn ofynnol gan bob partner yng Ngogledd Cymru wedi ei gytuno arno, ac roedd yn y broses o gael ei gasglu a'i ddadansoddi gan Gyngor Sir Ddinbych fel yr Awdurdod Arweiniol penodedig.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, hysbysodd yr Aelod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol – Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru:

- tra bod yna ddisgwyliad gan Lywodraeth Cymru y dylai 'cyllidebau cyfun' fod yn eu lle cyn Ebrill 2019, fod holl bartneriaid Gogledd Cymru – a rhanbarthau eraill yng Nghymru – o'r farn ei bod yn fuddiol ymgymryd â gweithgaredd i ychwanegu gwerth i wasanaethau presennol ar draws y rhanbarth trwy gynnal peilot ar rai prosiectau er mwyn asesu'r manteision, lleihau unrhyw risgiau, a bod yn fwy hyddysg wrth sefydlu cyllidebau cyfun i'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol.
- Er nad oedd hyn yn cyrraedd y targed o sefydlu cyllidebau cyfun ffurfiol, roedd yn ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn derbyn y dull yma;
- fod yr amcangyfrif diweddaraf fel y'i cafwyd ar ddiwedd 2017/18 ar gyfer 'cyllideb gyfun' i swyddogaethau llety cartref gofal oddeutu £115m. Roedd y ffigwr yma yn amlygu graddfa bosib unrhyw 'gyllideb gyfun' ranbarthol ac yn atgyfnerthu barn yr holl bartneriaid ei bod yn well cymryd amser digonol i gynllunio'n effeithiol at eu sefydlu, ac i brofi'r holl ddata oherwydd y risg ariannol ynghlwm â methiant;
- fod yr holl bartneriaid yn cytuno ag ysbryd a nodau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys Adran 9 y Ddeddf oedd yn cyfeirio at drefniadau partneriaethau a sefydliad trefniadau 'cyllidebau cyfun'. Tra bod pob partner yn dymuno cyflenwi gwasanaethau di-dor gwell i breswylwyr Gogledd Cymru, roedd maint, daearyddiaeth a dwysedd poblogaeth yr ardal yn her ychwanegol wrth geisio darparu gwasanaethau lleol iawn, a sicrhau arbedion maint.
- fod strwythurau ariannol y Bwrdd Iechyd yn wahanol iawn i rai'r Awdurdodau Lleol;

- fod angen hefyd am ddiffinio'n glir pa wasanaethau a ystyrir yn wasanaethau gofal cymdeithasol a pha rai oedd yn wasanaethau gofal iechyd, yn ogystal ag angen am benderfynu ar ddsbarthiad y gwasanaethau hynny a ystyrir yn gymysgedd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd;
- nad oedd modd gwneud unrhyw drefniadau 'cyllideb gyfun' ffurfiol heb gefnogaeth Gweithrediaeth pob un o'r chwech Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ar hyn o bryd, yr oll yr oedd pob sefydliad wedi cytuno iddo oedd cychwyn ar 'gytundeb integreiddio' oedd yn eu hymrwymo i gydweithio ar integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Dyma'r rheswm dros y weithgaredd cyfuno data.
- nad oedd cytundeb ffurfiol ar Adran 33 Deddf Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei lofnodi gan yr un o'r partneriaid hyd yn hyn. Roedd y gwaith presennol yn ymwneud â chronfa 'rhannu heb risg' oedd yn cynnwys adnabod gwasanaethau 'cyllideb gyfun' posib a gwariant pob partner ar y gwasanaethau hynny. Byddai hyn o gymorth i siapio cynigion 'cyllideb gyfun' y dyfodol a lleihau unrhyw risgiau ynghlwm â nhw. Unwaith y byddai pob parti yn ymrwymo i gytundeb Adran 33 ffurfiol, byddent wedi eu rhwymo gan y gyfraith i dderbyn yr holl ymrwymadau – ariannol ac fel arall – o fewn y cytundeb. O ganlyniad, byddai atebolrwydd cyfreithiol dros unrhyw rwymedigaethau heb eu bodloni;
- fod staff Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cymryd y prif rôl yn y gwaith o ddatblygu gwaith o gwmpas trefniadau 'cyllideb gyfun' yn unol â'r 'cytundeb integreiddio'. Fodd bynnag, pe bai Sir Ddinbych am fod yn Awdurdod Cynnal fyddai'n gyfrifol am weinyddu a rheoli gofynion Adran 9 y Ddeddf yn y dyfodol, byddai angen sicrhau seilwaith drefniadol ddigonol i gefnogi'r gwaith hwnnw;
- y byddai cyfraniad pob partner at unrhyw 'gyllideb gyfun' yn y dyfodol yn seiliedig ar eu gwariant presennol ar y gwasanaethau a gynhwysid yn y 'gyllideb gyfun' ac nid ar sail maint poblogaeth; ac
- fod y Bwrdd Partneriaeth Adran 9, erbyn Ebrill 2019, yn anelu at fod wedi cwblhau'r gweithgaredd cyfuno gwybodaeth a bod cronfa 'rhannu heb risg' wedi ei sefydlu, nid cyllideb gyfun ffurfiol Adran 33. Byddai'r gwaith ar ddatblygu cytundeb ffurfiol Adran 33 yn cychwyn pan fyddai'r data wedi ei ddadansoddi yn ddibynadwy, a'r risgiau wedi eu hasesu yn ddigonol i sicrhau y gellid llunio trefniadau cyllideb gyfun posib.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

**Penderfynwyd: - yng ngolau'r sylwadau uchod i -**

- (i) gadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad Effaith Llesiant (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaeth;**
- (ii) dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf, a nodi'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu i gynhyrchu gwybodaeth ariannol ranbarthol (cronfa rhannu heb risg); ac**
- (iii) i wneud cais am gyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor ymhen deuddeng mis oni bai fod datblygiadau sylweddol neu newidiadau yn golygu fod angen cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar adeg cynharach.**

## 7 CYDBWYLLGOR CRAFFU AR GYFER BWRDD Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei adroddiad gydag atodiadau (a gylchredwyd eisoes) oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chynnig i sefydlu Cydbwyllgor Craffu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Yn ystod ei gyflwyniad, amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gefndir y cynnig a'r cyfrifoldebau statudol a roddir ar Awdurdodau Lleol i graffu ar Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer eu hardal. Roedd gwybodaeth fanwl ar y rhain oll yn yr adroddiad. Amlinellodd hefyd y siwrnai ddemocrataidd a gymerwyd hyd yn hyn o fewn Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych a Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ei hun, ynghyd â chasgliadau'r trafodaethau ar y trefniadau arfaethedig o'r fforymau unigol. Pe bai Pwyllgor Craffu Partneriaethau Sir Ddinbych yn y cyfarfod presennol, a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau Conwy yn eu cyfarfod ar 2 Gorffennaf yn gefnogol ill dau o'r trefniadau newydd arfaethedig, byddent yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd pob Awdurdod er ystyriaeth cyn cael eu cyflwyno i Gyngor llawn y ddau Awdurdod ym mis Hydref i'w cymeradwyo er mwyn dechrau ar y gwaith o sefydlu Cydbwyllgor Craffu at bwrpas craffu ar Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

- gadarnhau fod maint y Cydbwyllgor Craffu arfaethedig eto i'w bennu. Roedd y cylch gorchwyl drafft yn cynnig y dylid cael pwyllgor o 12 aelod – chwech aelod yr un o'r cynghorau cyfansoddol. Cynigiwyd cydbwyllgor 12 aelod gan y teimlid y byddai fforwm o'r maint yma yn gymorth i sicrhau dadlau a herio adeiladol ac effeithiol. Gellid cael fod pwyllgor llawer mwy o ran maint yn anhwylyd ac felly heb y gallu i gyflawni ei swyddogaeth wreiddiol. Fodd bynnag, byddai'n bosib newid maint y Pwyllgor ar unrhyw adeg – gan gynnwys wedi ei sefydlu – pe bai'r ddau Gyngor yn cytuno i'r newid hwnnw;
- hysbysu fod y Rheoliadau sy'n llywodraethu dros sefydliad pwyllgor ar y cyd yn nodi fod yn rhaid i unrhyw gydbwyllgor craffu gynnwys nifer hafal o gynrychiolwyr o bob Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r cydbwyllgor. Wrth benodi aelodau i'r cydbwyllgor, byddai'n ofynnol i bob Cyngor wneud hynny yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod;
- esbonio fod y cynnig yn cael ei gyflwyno i nifer o bwyllgorau gwahanol o fewn y ddau Awdurdod cyn ceisio caniatâd y Cyngor Sir i sefydlu cydbwyllgor craffu. Roedd hyn am ei bod yn bwysig sicrhau cefnogaeth ehangach aelodau'r Cyngor i'r cynnig cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo;
- hysbysu i'r awgrym gael ei wneud y dylid penodi cadeirydd am dymor o ddwy flynedd gan na fyddai'r cydbwyllgor – os sefydlid – yn debygol o gyfarfod yn amlach nac oddeutu dwywaith y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Dim ond cynnig oedd hyn, ac roedd felly yn agored i'w drafod; ac

- hysbysodd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud hyd yma ar bwy fyddai'r Awdurdod Cynnal a fyddai'n gweinyddu'r Cydbwyllgor Craffu arfaethedig, neu a fyddai'r gwaith yn digwydd am yn ail rhwng y ddau gyngor. Byddai trafodaethau o'r fath yn cychwyn wedi gofyn barn swyddogaethau craffu y ddau Gyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd aelodau'r Pwyllgor yn gadarn o'r farn mai cael Cydbwyllgor Craffu yn cynnwys 12 aelod – 6 o bob Cyngor – oedd y dewis ffafriedig i bwrpas craffu yn effeithiol ar Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus, ac y byddai'r Cydbwyllgor Craffu o bosib yn dymuno penderfynu ar dymor swydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi ei sefydlu. O ganlyniad:

**Penderfynwyd: - yng ngolau'r sylwadau uchod i -**

- (i) **gefnogi sefydliad Cydbwyllgor Craffu ffurfiol i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych; ac i**
- (ii) **gymeradwyo cylch gorchwyl a rheolau gweithredu drafft y Cydbwyllgor Craffu**

## **8 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu yr adroddiad (a gylchredwyd eisoes) a oedd yn cyflwyno i'r Pwyllgor ei raglen waith i'r dyfodol.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cyflwyniad adroddiad ar effeithiolrwydd y bartneriaeth wedi ei ohirio nes y cyfarfod yn Ionawr 2019, am mai dim ond ers yn ddiweddar yr oedd y bartneriaeth newydd a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau Teledu Cylch Caeëdig yn weithredol. Cafodd aelodau wybod y byddent yn ymgynnull ar gyfer cyfarfod arbennig ym mis Hydref i drafod yr adroddiad Tawel Fan a chyflenwad gwasanaethau yn y dyfodol â chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd hyn am nad oedd cynrychiolwyr y Bwrdd ar gael i fynychu cyfarfod mis Medi.

Amlinellwyd y rhaglen waith i'r dyfodol. Amlygwyd y ffaith mai dim ond un eitem oedd ar gyfer Tachwedd ar hyn o bryd, ond y gellid ychwanegu at hynny cyn y cyfarfod. Tynnwyd sylw aelodau at y 'Ffurflen Gynnig Aelod' (Atodiad 2 yn yr adroddiad), a chawsant eu hatgoffa o'r angen i gwblhau un o'r ffurflenni hyn os oeddent yn dymuno i unrhyw beth gael ei ychwanegu at y rhaglen waith. Byddai'r ffurflen yn cael ei hanfon at y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu er mwyn penderfynu a oedd y pwnc yn bodloni'r meini prawf ar gyfer craffu.

Mewn ymateb i ymholiad ar y modd yr oedd y Cyngor yn monitro ansawdd y gofal a ddarperid i breswylwyr yn ei cartrefi eu hunain yn ogystal â chartrefi preswyl a nyrsio, hysbysodd y Cydlynnydd Craffu y darperid adroddiad monitro chwarterol i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu er gwybodaeth. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am i'r adroddiad yma gael ei gylchredeg i'r Pwyllgor er gwybodaeth hefyd.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

**Penderfynwyd: yng ngolau'r sylwadau uchod -**

- (i) cymeradwyo'r rhaglen waith fel y'i gwelir yn Atodiad 1 yr adroddiad; a*
- (ii) gwnaethpwyd cais i gopi o'r adroddiad chwarterol ar fonitro ansawdd y darparwyr gofal allanol a ddarperir i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu hefyd gael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth*

## **9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Ni chafwyd unrhyw adborth gan gynrychiolwyr pwyllgor

Daeth y cyfarfod i ben am 11:35.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                   |                                                                                                     |
|-----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>                                                               |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>20 Medi 2018</b>                                                                                 |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/<br/>Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>          |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Rheolwr Tîm: Diogelu</b>                                                                         |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir<br/>Ddinbych 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.</b> |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad perfformiad blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn unol â chanllawiau statudol ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Cyfeirio at ddata sy'n adlewyrchu ffigurau a gyflwynir gan yr Awdurdod Lleol yn flynyddol i Uned Ddata Llywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl, a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i'w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Sir Ddinbych i ddiogelu plant mewn perygl.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir

Mae'r Tîm Diogelu bellach wedi'i sefydlu'n llawn ac mae'r model darparu cyfredol yn cydymffurfio â'r broses ddiogelu a bennwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cyhoeddwyd cyfrol ddiwethaf y canllaw statudol, Cyfrol 6: Delio ag Achosion Unigol, yn gynharach eleni gan Lywodraeth Cymru, gan gwblhau'r crynodeb o ganllaw statudol yn ymwneud â Rhan 7 o'r Ddeddf.

### 4.2 Gwelliannau

Dros y 12 mis diwethaf mae'r ffocws wedi bod ar wella cysondeb ac ansawdd gwaith diogelu. Mae archwiliadau chwarterol sampl o achosion diogelu dros y flwyddyn wedi dangos gwelliant cyson mewn sawl maes o waith e.e. tystiolaeth i ddangos bod unigolion yn cael eu diogelu'n gyson o ganlyniad i'r broses hon; bod gweithwyr proffesiynol addas ynghlwm wrth y trafodaethau/elfen gwneud penderfyniadau o'r broses ddiogelu. Bu gwelliant sylweddol hefyd yn ansawdd cofnodion cyfarfod strategol,

gyda thystiolaeth o ganlyniadau ffurfiol a chynlluniau gweithredu clir, gydag amserlenni wedi'u cytuno arnynt ar gyfer cwblhau.

#### 4.3 Gweithgarwch Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 2015 - 2018

| Blwyddyn    | Adroddiadau (atgyfeiriadau) dderbyniwyd | a |
|-------------|-----------------------------------------|---|
| 2015 - 2016 | 355                                     |   |
| 2016 - 2017 | 527                                     |   |
| 2017 - 2018 | 568                                     |   |

#### 4.4 Penawdau o 2017 - 2018

- Mae nifer o adroddiadau (atgyfeiriadau) yn dangos cynnydd cyson parhaus o 8%, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cynnydd o 48% yn y flwyddyn flaenorol wedi cyrraedd lefel ddigyfnewid.
- Symudwyd 23% o achosion ymlaen i Gyfarfodydd Strategaeth.
- Tynnwyd neu cwtogwyd ar y risg i 92% o oedolion mewn risg.
- Esgeulustod (39%) a cham-drin corfforol (31%) oedd y math mwyaf cyffredin o gamdrin a adroddwyd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r duedd genedlaethol fel yr adroddwyd ar gyfer 2016 - 17
- Roedd gweithwyr a gafodd dâl yn fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am gamdriniaeth / esgeulustod honedig (69%), gan ddilyn gyda pherthnasau / ffrindiau (12%). Mae hyn eto yn unol â thueddiadau cenedlaethol.

Gweler Atodiad 1 am y penawdau diogelu data 2017 – 18

#### 4.5 Dangosyddion Perfformiad

Dim ond un dangosydd perfformiad cenedlaethol sydd yn ymwneud â Diogelu Oedolion ar hyn o bryd: nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith, ein cydymffurfriad ar gyfer y flwyddyn gyntaf hon oedd 67%.

Er bod adegau pan gymerir mwy o amser i gwblhau ymholiad e.e. ar gyfer cwblhau asesiad capasiti neu aros am gasgliad ymholiad heddlu, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn atal camau gweithredu rhag cael eu cymryd ar unwaith yn ôl yr angen, i amddiffyn oedolyn mewn perygl.

#### 4.6 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) – gweithgarwch 2017 - 18

4.6.1 Bu cynnydd bach yn nifer y ceisiadau a ddaeth i law – 335 o'i gymharu â 314 y llynedd, gyda 96 awdurdodiad wedi'i roi (cynnydd o 68 y llynedd).

4.6.2 Mae cronfa ddata o unigolion sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau cartref (DiDS) wedi'i sefydlu gan y tîm Anabledau Cymhleth, wedi'i blaenoriaethu ar sail symudiadau newydd arfaethedig i leoliadau amgen a natur/dwyster y cyfyngiadau cynhenid o fewn cynlluniau gofal a chymorth. Mae cynnydd cyson wedi'i wneud wrth lwyddo i fynd â'r ceisiadau hyn drwy'r broses llys.

4.6.3 Fel yr adroddwyd yn yr Adroddiadau Craffu blaenorol, roedd Dyfarniad y Goruchaf Lys ar 2014 a chyfraith achos pellach yn sbardun i gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch



DoLS ar draws y DU ac nid yw hyn yn wahanol yn Sir Ddinbych. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal adolygiad o'r fframwaith DoLS presennol ar draws Cymru a Lloegr, ac ymgynghorwyd ar ystod o ddiwygiadau pwysig yn ystod hydref 2016. Gwrthododd y Llywodraeth y diwygiadau cychwynnol a argymhellwyd ond fe dderbyniodd y rhai diwygiedig ac fe gawsant eu cyhoeddi mewn papur gwyn ym mis Ebrill 2017.

4.6.4 Yng Ngorffennaf 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth Fesur Galluedd Meddyliol (Diwygiad), a fydd yn diwygio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) os daw yn rhan o'r gyfraith, a'u disodli gyda chynllun o'r enw Trefniadau Diogelu Rhyddid (er nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Mesur ei hun). Mae'r Mesur yn pwysu'n drwm ar gynnigion Comisiwn y Gyfraith i ddiwygio Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, ond yn gyffredinol, nid yn mynd i'r afael â rhai o'r diwygiadau Deddf Galluedd Meddyliol yr awgrymwyd gan Gomisiwn y Gyfraith. Felly nid yw diwygiadau arfaethedig o amgylch gwneud penderfyniadau â chymorth a lles pennaf yn cael eu cynnwys, er bod yn hepgoriad wedi bod yn ddadleuol, a gellir ei herio wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd. Mae'r Mesur newydd hefyd yn ehangu'r cwmpas i drin pobl, a'u hamddifadu o'u rhyddid, mewn argyfwng meddygol, heb gael awdurdod ymlaen llaw. Mae'n parhau i fod yn aneglur a fydd y Mesur yn dod yn rhan o'r gyfraith, ac yna pryd y caiff ei weithredu.

#### 4.7 Amcanion allweddol ar gyfer 2018 -19

- I wella perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru a sefydlu dulliau cofnodi clir i ddal y rhesymau am ragori ar y terfyn amser 7 diwrnod gwaith.
- I barhau i weithredu'r gyfrol olaf o ganllaw statudol, Cyf. 6 Delio ag Achosion Unigol, yn enwedig y cyswllt gyda gofal integredig a chynlluniau cefnogi.
- I beilota diwrnodau penodol ar gyfer cyfarfodydd strategaeth er mwyn galluogi a chefnogi cynrychiolaeth gryfach ar gyfer sefydliadau partner.
- I barhau gydag archwiliadau chwarterol o achosion diogelu er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb gwaith.
- Hyrwyddo'r defnydd o eiriolaeth i gefnogi unigolion yn y broses ddiogelu.

#### 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r trefniadau Diogelu Oedolion yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol ar gyfer Cymunedau Gwydn, drwy gefnogi oedolion diamddiffyn i barhau i fyw yn ddiogel yn eu cymuned.

#### 6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

#### 7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

#### 8. **Pa ymgynghori a wnaed?**

Amherthnasol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid/DiDS – Mae rheoli swm y gwaith mewn perthynas ag unigolion mewn cartref gofal a lleoliad cartref yn parhau i fod yn her. Mae systemau yn eu lle i flaenoriaethu'r ceisiadau a ddaw i law ac rydym yn parhau i hyfforddi mwy o aseswyr lles pennaf er mwyn cynyddu gallu'r gweithlu i gynnal y gwaith.

10.2 Costau cynyddol gwaith Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid h.y. asesiadau meddygol, Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol, ceisiadau i'r Llys. Rydym yn gyfyngedig yn ein gallu i leihau'r costau hyn, fodd bynnag mae rhai trafodaethau wedi'u hysgogi gyda darparwr Cynrychiolydd yr Unigolyn Perthnasol (RPR) er mwyn cytuno ar safonau a all arwain at rai gostyngiadau mewn cost.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad -**



Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

### **Swyddog Cyswllt:**


Rheolwr Tîm: Diogelu

Ffôn: (01824) 706675


Headlines from Welsh Government Returns



### Outcomes for alleged victim



### Place of Abuse



## Appendix 2 – Case examples

### Case 1

#### Over view of concern raised

93 year old lady in community hospital, concerns raised by health around potential financial abuse by a family member. These concerns related to ongoing issues and disagreements between relatives. The individual's Nephew and God-daughter were in conflict regarding future placement and management of finances. The ward staff reported that Nephew was encouraging the Aunt to sign legal documentation in relation to a Lasting Power of Attorney (LPA), it was deemed that the patient had fluctuating capacity at the time of this action.

The patient was deemed to have capacity to decide where she wanted to live, although there had been some doubt about this during this hospital stay. An independent advocate became involved to offer support around these safeguarding concerns.

God-daughter contacted Denbighshire safeguarding team to express her concerns regarding possible coercion by her Nephew, which she believed would jeopardise discharge from hospital. Counter allegation was then raised by Nephew regarding concerns about the God-daughter 'not acting in his aunt's best interest', this did delay discharge by a further day.

Advocate supported the patient to return to her own home, with a package of care and with additional support from God-daughter. It was felt that the situation between the two relatives was getting in the way of this lady's smooth discharge from hospital.

#### Action taken

Denbighshire safeguarding undertook initial enquiries in relation to determining if the lady was an adult at risk, was experiencing or at risk of abuse and as result unable to protect herself against abuse.

Designated Lead Manager (DLM) established the individual's capacity, to support gaining her wishes and views into the action she wanted. It was established quickly with the engagement of the advocate that this lady wished to return home. She was able to express herself clearly and was not wanting to reside in a care setting at this time.

The lady was requesting that both relatives were involved in supporting with managing her finances and did not want to pass the responsibility exclusively to her Nephew.

The Multi-disciplinary Team (MDT) concluded that there is reasonable cause to suspect that this lady was an adult at risk. However the threshold was not met to proceed to a strategy meeting under adult safeguarding procedures. There was no evidence of loss of material/processions or finances, the individual was not wanting any action other than that discussed with her advocate, She did not think she was at risk and was happy to have been allocated an advocate to help manage the conflict in her family. It was agreed the on-going support from advocacy would offer this lady the opportunity to make her own decisions and also inform her relatives of her wishes and views moving forward.

## The difference/impact to the Citizen and or the service

This approach was person-centred, there was clear understanding of the personal outcomes that the adult wished to achieve 'what mattered' to this individual. Her outcomes were at the centre of the system to support the right solution could be found.

This 93 year old lady returned to her own home and was enabled to participate in the relevant decision- making with the support of an independent advocate. The family were clear about the wishes and views of their relative and of the on-going support - *Rights to safety need to be balanced with other rights, such as rights to liberty and autonomy, and right to family life.*

## **Case 2**

### Overview of concern raised

In-patient in Glan Clwyd Hospital (YGC)- Patient developed a Grade 3 Pressure Area. Allegation of neglect via Tissue Viability Nurse (TVN) as per reporting protocol.

Threshold met as the MDT felt that the concern required further enquiry to establish the circumstances on how the pressure area had developed in what is considered to be a safe environment.

The police were consulted and advised that this concern had not met their threshold and were content to proceed through the safeguarding process.

The Citizen was assessed as having capacity to consent and supported the decision to proceed.

### Action Taken

Initial strategy meeting was convened but this was deferred to a later date to facilitate the attendance of the manager of concerned ward.

Appropriate safeguarding actions were taken by ward staff including a Datix report highlighting the concern. Citizen was subsequently transferred to a local hospital where a further Datix Report was submitted. The MDT agreed that as the Citizen was no longer a patient in YGC, the risks were reduced.

Final strategy meeting convened where the MDT agreed that with information and evidence shared, there was no requirement to proceed to a non-criminal investigation and that an outcome could be reached.

The MDT determined that there was sufficient evidence to confirm that staff took all appropriate actions to minimise the risks of the Citizen developing pressure areas and therefore neglect by staff was not considered. It was established, however, that the quality of the documentation was poor and needed addressing as a matter of urgency.

The recommendations from the meeting included- the ward manager will undertake quality monitoring of all staff, introduce further training supporting the importance of high quality documentation, the revision of policies in relation to managing and reporting safeguarding concerns. TVNs will provide guidance and advice to ward staff to ensure quality documentation is provided in relation to pressure area management and reporting.

### The difference/ impact to the Citizen and or the service

The Citizen had given consent for the safeguarding process to be taken forward with the expected outcome that by raising the concern the process will minimise the risk of similar incidents occurring to other patients. The Citizen was advised of the outcome of the process and offered the opportunity of a case conference. The Citizen declined this stating they are satisfied with the outcome.

The additional training, revised policies and support from the TVNs should assist in reducing the risks of further similar incidents and will address the wider safeguards of patients on the ward.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



|                                   |                                                                                            |
|-----------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>                                                      |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>20 Medi 2018</b>                                                                        |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/<br/>Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Swyddog Comisiynu – Gwasanaethau Gofalwyr</b>                                           |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Asesiad o Argaeledd Seibiant Gofal a Phreswyl</b>                                       |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ynghylch darpariaeth ac argaeledd seibiant i drigolion Sir Ddinbych sydd ag anghenion gofal a chymorth, sydd yn ei dro yn darparu seibiant i'w Gofalwyr teulu. Mae'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu mewn ymateb i gais gan Bwyllgor Craffu Partneriaethau "i asesu a oes argaeledd digonol ar gyfer darpariaeth seibiant gofal nyrsio a phreswyl ar draws Sir Ddinbych er mwyn galluogi'r sawl y gofalir amdanynt i dderbyn gofal, ac i alluogi'r gofalwyr i dderbyn cyfnodau o seibiant yn unol â nodau Strategaeth Gofalwyr y Cyngor."

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor Archwilio yn:

- 3.1 ystyried yr adroddiad ac yn darparu sylwadau fel y bo'n briodol mewn perthynas ag argaeledd seibiant i gefnogi unigolion sydd ag anghenion cymorth a gofal, a'u gofalwyr, o fewn cynnwys deddfwriaeth bresennol a newidiadau demograffeg; a
- 3.2 parhau i gefnogi a hyrwyddo datblygiad cymorth i Ofalwyr er mwyn i Wasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Sir Ddinbych (GCG) fodloni ei rwymedigaethau statudol yn ymwneud â Gofalwyr, ac i gefnogi'r Cyngor wrth ddarparu ei flaenoriaeth gorfforaethol o ddatblygu cymunedau cryf.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

### **4.1 Cwmpas yr Adroddiad:**

- 4.1.1 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth seibiant i oedolion 18 oed a throsodd sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac mae hefyd yn cefnogi Gofalwyr. Mae'n cynnwys darpariaeth i bobl hŷn ac oedolion gydag anghenion cymhleth gan gynnwys anabledau dysgu. Er mwyn darparu darlun mwy cyflawn o'r ddarpariaeth seibiant sy'n cefnogi Gofalwyr, mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd i gael seibiant yn ystod y dydd, yn ogystal â chyfnodau hirach o seibiant mewn lleoliadau preswyl a gofal nyrsio.

4.1.2 Nid yw'n cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth seibiant i unigolion sydd ag anghenion gofal nyrsio wedi'u hariannu'n llawn gan y Bwrdd Iechyd am nad oes gennym fynediad at y data hwn yn yr achosion hyn, mae gan y gwasanaeth iechyd ddyletswydd i fodloni anghenion y sawl sy'n derbyn gofal gan gynnwys seibiant yn absenoldeb y gofalwr.

## **4.2 Diffiniad Seibiant:**

4.2.1 Mae gofal seibiant yn rhan o'r cymorth cyffredinol y gall teuluoedd fod ei angen i gadw'r aelod o'u teulu sydd ag anghenion gofal a chymorth yn eu cartref. Mae'r gair "seibiant" yn golygu cymryd egwyl oddi wrth heriau dyddiol gofalu. Gellir ei drefnu am ychydig oriau neu am gyhyd â phythefnos. Gall gofal seibiant ddigwydd yn y cartref neu mewn lleoliad arall dros dro. Gall Seibiant ddigwydd yn rheolaidd neu o bryd i'w gilydd. [Polisi Rhanbarthol Gogledd Cymru mewn Perthynas â Seibiant a Gofal Tymor Byr fel Rhan o Ofal a Chymorth wedi'i Gefnogi Gorffennaf 2018]

4.2.2 Gellir adnabod yr angen am seibiant drwy asesu'r sawl sydd ag anghenion gofal a chymorth neu drwy gwblhau asesiad o'r gofalwr. Mae seibiant yn rhan o Gynllun Gofal a Chymorth Integredig y sawl sy'n derbyn y gofal, codir tâl am y gwasanaeth hwn, ond gellir adnabod yr angen drwy asesu'r Gofalwr. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth 'gwasanaeth gwarchod' yn wasanaeth statudol rhad ac am ddim i'r Gofalwr, a chaiff ei ddarparu yn dilyn Asesiad Gofalwr.

## **4.3 Cefndir a Chynnwys:**

4.3.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru) yn rhoi cyfrifoldeb ar unigolion ac Awdurdodau Lleol i fodloni anghenion a chyflawni canlyniadau. Yn y cyd-destun hwn, dim ond os na ellir ei fodloni mewn unrhyw ffordd arall y mae angen yn gymwys i gael ei fodloni trwy Gynllun Gofal a Chymorth a Reolir gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cynnwys gallu unigolion i ddefnyddio eu hadnoddau personol, gan gynnwys adnoddau ariannol, teulu sy'n fodlon helpu a rhwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau/gweithgareddau hygyrch sydd ar gael o fewn eu cymuned.

4.3.2 Mae'r Ddeddf felly yn gofyn am newid mewn diwylliant sy'n darparu mwy o ffocws ar hybu cadernid, annibyniaeth, hunanofal a chymorth yn y gymuned. Mae'n newid y ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn asesu'r angen am gymorth, a'r ffordd y caiff y cymorth ei ddarparu, gyda mwy o bwyslais ar hybu annibyniaeth bobl i roi llais a rheolaeth gryfach iddynt.

## **4.4 Dull Sir Ddinbych:**

4.4.1 Sicrhau bod y cyngor yn bodloni gofynion y Ddeddf ac yn croesawu ei ethos. Mae Sir Ddinbych wedi cyflwyno dull yn seiliedig ar asedau i gefnogi trigolion, gan gynnwys Gofalwyr. Er mwyn cefnogi'r dull hwn, mae ymarferwyr yn defnyddio'r olwyn adnoddau (Atodiad 1) i'w helpu i adnabod cryfderau a sgiliau trigolion, cymorth gan ffrindiau, teulu, eu cymuned a'r trydydd sector. Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (Sir Ddinbych) hefyd yn symud i ffwrdd o fathau traddodiadol o ddarpariaeth seibiant ac yn gobeithio comisiynu cyfleoedd seibiant mwy creadigol a newydd sy'n bodloni canlyniadau'r unigolyn yn well. Mae'r dull hwn hefyd yn cefnogi nod y Cyngor i ddatblygu cymunedau cryf gan sicrhau bod 'pobl yn gallu byw yn eu cartrefi yn hirach". Mae'r Ddeddf hefyd yn canolbwyntio ar ddefnyddio mwy o Gyllidebau Cymorth i fodloni anghenion unigolion a darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd i'r sawl sy'n derbyn y gofal a'u Gofalwr, a dyma nawr yw'r sefyllfa ddiodyn i Wasanaethau Cymorth

Cymunedol. Mae pamffled diweddar (Atodiad 2) yn darparu mwy o fanylion ynghylch meini prawf a phwrpas y cyllidebau cymorth.

#### **4.5 Heriau Demograffeg a Chomisiynu**

- 4.5.1 Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2016 yn darparu dadansoddiad cyflawn o argoelion a galw'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau yn ymwneud â thrigolion sydd angen cymorth gofal iechyd a chymdeithasol, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r asesiad llawn ar gael ar-lein: <https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment/regional-plan/>. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn ar draws Gogledd Cymru yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal â hynny, mae nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu a nam corfforol a synhwyrol yn cynyddu. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o bobl yn darparu gofal di-dâl ac yn darparu gofal am amser hirach.
- 4.5.2 Mae hyn yn creu heriau sylweddol. Bydd rhaid i gomisiynwyr a darparwyr gynnig cymorth hyblyg i alluogi pobl i; fod yn annibynnol, adnabod eu datrysiadau eu hunain drwy ddefnyddio asedau cymunedol a phersonol; cynllunio ar gyfer anghenion gofal y dyfodol; a chyflawni eu canlyniadau lles a phersonol eu hunan. Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl y gall y dull seiliedig ar asedau a'r defnydd o'r olwyn adnoddau leihau'r galw am wasanaethau statudol, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei wrthbwysyo gan newidiadau demograffeg.
- 4.5.3 Mewn ymateb i ganfyddiadau'r asesiad, mae Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018 yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch anghenion iechyd a chymdeithasol y boblogaeth. Mae grwpiau blaenoriaeth yn cynnwys pobl hŷn, rheiny sy'n byw â dementia, anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl. Mae camau blaenoriaeth mewn perthynas â Gofalwyr yn cydnabod y gellir gwella cefnogaeth i ofalwyr drwy fodloni gofynion y sawl sy'n derbyn y gofal yn well. Mae'r prif gamau gweithredu yn canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau ar draws y rhanbarth yn well, a'r angen i gynnal marchnad gynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.

#### **4.6 Darpariaeth Presennol Seibiant:**

- 4.6.1 Mae modelau cyfredol seibiant yn Sir Ddinbych yn gyfuniad o ddarpariaeth draddodiadol yn ogystal â darpariaeth fwy creadigol a newydd i fodloni canlyniadau unigolion. Mae Atodiad 3 yn darparu gwybodaeth am wahanol fodolau o seibiant sy'n cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan yr awdurdodau. Mae hefyd yn darparu data am ddarpariaeth seibiant yn ystod 2017/18. Yn enwedig i oedolion gydag anableddau dysgu ac oedolion iau gydag anghenion cymorth cymhleth, nid yw cartrefi gofal traddodiadol yn ddewis a ffafrir ar gyfer seibiant. Maent yn fwy costus na mathau eraill o seibiant ac yn aml iawn yn opsiwn a reoleiddir.
- 4.6.2 Gall y sawl sy'n derbyn y gofal a'r Gofalwr dderbyn cyfuniad o seibiant dros nos ac yn ystod y dydd, yn dibynnu ar angen yr unigolyn. Er enghraifft, gallant fod yn derbyn cyfuniad o 'wasanaeth gwarchod' wythnosol a chyfnodau achlysurol o seibiant mewn lleoliad preswyl.
- 4.6.3 Tra bod trigolion a Gofalwyr yn gallu defnyddio cyllidebau cymorth i ariannu gwasanaethau a gomisiynir gan yr awdurdodau lleol, maent hefyd yn eu defnyddio i ariannu eu datrysiadau newydd eu hunan i seibiant. Mae Atodiad 4 yn darparu enghreifftiau o sut mae ymarferwyr yn gweithio gydag unigolion a'u Gofalwyr i ddod o hyd i ffyrdd mwy creadigol o ddefnyddio eu cyllidebau cymorth i ariannu cyfleoedd am seibiant a bodloni eu canlyniadau eu hunain.
- 4.6.4 Mae seibiant hefyd ar gael gan sefydliadau Trydydd Sector, ac ymddiriedolaethau elusennol lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae NEWCIS wedi cydweithio â Thai

Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych yn ddiweddar er mwyn darparu gwyliau byr yn Llys Awelon. Maent hefyd yn ariannu gwyliau mewn gwesty i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn y gofal drwy eu Prosiect Loteri. Yn lleol, mae'r elusen Men's Convalescent Institution yn Y Rhyl yn darparu arian ar gyfer gwyliau, ac mae cefnogaeth ar gael ar gyfer seibiant gan elusennau megis y SSAFA (elusen y Lluoedd Arfog), a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

#### 4.7 **Argaeledd gwllâu Cartrefi Gofal a Phreswyl yn Sir Ddinbych**

4.7.1 Mae hon yn farchnad gystadleuol tu hwnt, nid yw'r awdurdodau yn prynu gwllâu yn arbennig ar gyfer seibiant oherwydd ni allant fod yn sicr y byddant yn cael eu defnyddio. Mae'n well gan unigolion a theuluoedd ddefnyddio lleoliad o'u dewis nhw, ac ar y cyfan, mae teuluoedd yn trefnu â'r cartref eu hunain. Mae Atodiad 5 yn darparu data am y nifer o wllâu mewn cartrefi gofal a phreswyl yn Sir Ddinbych ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Er bod gwllâu ar gael, mae bylchau yn y ddarpariaeth benodol ar gyfer nifer fechan o unigolion sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol gymhleth. Rhaid i'w hanghenion seibiant gael eu hariannu ar y cyd gydag iechyd a'u darparu mewn lleoliad arbenigol, ar hyn o bryd, nid oes llawer o ddarpariaeth ar gyfer hyn yn y sir.

#### 4.8 **Crynodeb**

4.8.1 Mae deddfwriaeth bresennol yn ei gwneud hi'n ofynnol i fodloni anghenion annibynnol trigolion ac osgoi darparu gwasanaethau traddodiadol, er hynny, mae'r rhain dal ar gael ac yn ddewis ffafriol i nifer o unigolion. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod gwerth y cynllun Rhannu Bywydau yn arbennig, ac er bod y ddarpariaeth hon yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd nifer y Gofalwyr Rhannu Bywydau sydd ar gael, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ac ymestyn y ddarpariaeth. Yn ogystal â hyn, fodd bynnag, fel y gwelir yn yr enghreifftiau yn Atodiad 4, mae ystod eang o ffyrdd y gellir darparu seibiant, ac wrth ystyried mwy o ddatrysiadau creadigol mae'n bwysig ein bod yn cymryd anghenion y sawl sy'n derbyn y gofal a'r cymorth i ystyriaeth, yn ogystal ag anghenion y Gofalwr.

4.8.2 Bydd darpariaeth Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru hefyd yn allweddol wrth ganolbwyntio ar integriad gwasanaethau ar draws y rhanbarth, a'r angen i gynnal marchnad iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.

4.8.3 **Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru 2018.** Fel y crybwyllwyd eisoes, mae Gofalwyr yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac fe luniwyd y Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol mewn ymateb i ganfyddiadau Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru. Mae'r Strategaeth ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth gan y Grŵp Arwain Rhanbarthol. Caiff Cynllun Gweithredu Gofalwyr Sir Ddinbych ei ddatblygu mewn ymateb i'r strategaeth ranbarthol, ac mewn cyd-destun â dull corfforaethol yr awdurdod i gefnogi Gofalwyr.

### 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad mewn perthynas â gwasanaethau a darpariaeth gyfredol yn yr adroddiad hwn. Gobeithir, fodd bynnag, bod cynnwys yr adroddiad hwn yn cyflwyno sut mae dulliau comisiynu ac arferion cyfredol yn cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor mewn perthynas â Chymunedau Cryf.

### 6. **Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad gwasanaethau penodol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Nid oedd angen ymgynghori â phwyllgorau Craffu, swyddogion na chyrff/grwpiau allanol er mwyn llunio'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

